OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2144 (Cy. 210)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23A, Magwyr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Awst 2014* |
| *Yn dod i rym* | *15 Awst 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt neu'n agos atynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Awst 2014. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23A, Magwyr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 15 Awst 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau o'r draffordd wrth Gyffordd 23A, Magwyr yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Awst 2014

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

### Darnau o Draffordd yr M4 wrth Gyffordd 23A, Magwyr yn Sir Fynwy

i) Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin.

ii) Y darn cyfan o'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain.

iii) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y slipffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y slipffordd ymuno tua'r gorllewin.